**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 21 o Fawrth 2023 drwy Zoom**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Gwynedd Williams, Philip Roberts, Hefin Jones, Berwyn Parry Jones, Beca Brown, Anne Lawton, Rhys Parry

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Richard Robinson, Emyr Jones

**Aelodau o'r cyhoedd:** Neb

**Ar gyfer eitem 1123** – Lowri Vaughan o GwyrddNi

**Clerc:** Meirion Jones

**1115. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**1116 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod

**1117. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1118. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 21 Chwefror 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

**1119. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Adroddwyd fod cwyn wedi gwneud at Gyngor Gwynedd am barcio ar y llinellau melyn ger siop Y Spar, Llanrug

Adroddwyd fod coeden er cof am y diweddar Gynghorydd Charles Jones ym Mharc Pwll Moelyn wedi ei dorri a bod Menter Fachwen am edrych beth ellir ei wneud

Adroddwyd fod y plac i fynd ar y coed er cof am y diweddar Gynghorwyr Brian Jones (Cwm y Glo) a Charles Jones (Llanrug) wedi ei baratoi

**1120. Cyfranogiad y Cyhoedd (os yn bresennol)**

Dim

**1121. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Gwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

Adroddiad i ddilyn

**1122. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Lanrug ar Gyngor Gwynedd.**

Adroddiad i ddilyn

**1123. I dderbyn diweddariad gan Lowri Hedd Vaughan o GwyrddNi (Copi adroddiad wedi atodi)**

Croesawyd Lowri Vaughan o GwyrddNi i'r cyfarfod a diolchwyd iddi am ei phresenoldeb. Aeth ymlaen i gyflwyno diweddariad ar raglen GwyrddNi drwy amlinellu'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn a'r dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y wybodaeth

**1124. I dderbyn adroddiad o'r Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Bwyd a Llesiant, fod tipyn o waith wedi ei wneud ar gyfer y cynllun bwyd ag bod y gwaith yn mynd rhagddo yn dda iawn.

Adroddwyd fod arian wedi ei glustnodi o grant ar gyfer archebu cyflenwad o fara ac wyau am 26 wythnos ynghyd a nwyddau eraill.

Adroddwyd fod y niferoedd sydd yn derbyn y pecynnau bwyd yn eithaf sefydlog ond fod 4 cais o'r newydd wedi ein cyrraedd yn ddiweddar

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1125. I dderbyn adroddiad o Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent fod y pwyllgor wedi cyflawni nifer o'i flaenoriaethau ar gyfer 2022/23. Roed y rhain yn cynnwys, gosod hysbysfwrdd ychwanegol yn y fynwent, sefydlu system ddigidol, placiau yn y fynwent yn nodi'r ardaloedd ac edrych ar iechyd a diogelwch.

Gofynnir i'r cyngor yn ogystal gymeradwyo rheolau newydd ar gyfer y fynwent (copi eisoes wedi cylchredeg)

Adroddodd y Cadeirydd fod y pwyllgor wedi cyfarfod wythnos diwethaf a'i fod wedi adnabod ei flaenoriaethau ar gyfer 2023-24 fel a ganlyn.

a) Parhau ac asesiadau risg ar y cofebion a'r fynwent;
b) Parhau i gystadlu yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn
c) Monitro gofod yn y fynwent

d) Mabwysiadu polisïau gwyrdd a bioamrywiol
e) Datblygu polisi cofebion
f) Adolygu rheolau'r fynwent
g) Arwyddion ychwanegol i'r fynwent i atgoffa pobl y pwysigrwydd i sicrhau fod i giatiau i'r fynwent ar gau oherwydd bod achos diweddar wedi cofnodi o ddefaid wedi gallu dod fewn i'r fynwent.

**Penderfynwyd:**

**a)** Derbyn a diolch am yr adroddiad
**b)** Cymeradwyo rheolau newydd i'r fynwent o ddyddiad y cyfarfod yma

**1126. Cais am gymorth ariannol - Clwb Pêl-droed Llanrug Unedig**

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol gan Glwb Pêl-droed Llanrug Unedig ar gyfer trwsio a gwella'r cwt te.

Datgan buddiant

Ar gyfer yr eitem yma, mae nifer o aelodau wedi datgan buddiant personol sydd yn gallu ei ystyried yn rhagfarnllyd o ystyried y canllawiau yma sydd wedi cyhoeddi gan Ombwdsman Cymru.

'Os byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth am yr holl ffeithiau perthnasol yn credu y gallai eich barn am fuddiannau'r cyhoedd fod yn rhagfarnllyd, yna mae gennych fuddiant rhagfarnus. Mae hwn yn brawf gwrthrychol. Rhaid i'r aelod benderfynu nid a fyddech yn gwneud y penderfyniad heb ragfarn, ond a fyddech yn cael eich ystyried yn gwneud hynny.

Y Cynghorydd Meirwen Lloyd
Y Cynghorydd Beca Brown
Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

Penderfynwyd: Cyfrannu £1,150 ar gyfer clwb pêl-droed Llanrug Unedig

**1127. I ddirprwyo penderfyniad o bwrcasu gliniaduron i'r Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Rhys Parry ei fod wedi bod yn trafod y gwahanol opsiynau gyda'r clerc ac edrych beth sydd ar gael.

Wedi ystyried y gwahanol opsiynau argymhellir pwrcasu gliniaduron ar gyfer yr aelodau sydd yn cael eu defnyddio gan gynghorau Sir Gwynedd a Môn a chynghorau eraill traws Gogledd Cymru.

**Penderfynwyd:** wedi trafodaeth ar y mater penderfynwyd symud ymlaen i bwrcasu gliniaduron ar gyfer yr aelodau.

**1128. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C23/0145/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais i godi sied at ddefnydd storio peiriannau/
**Ymgeisydd:** Mr Richard Link
**Asiant:** Mr Eric Hughes
**Cyfeiriad:** Fferm Glan Seiont, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AQ
**Cyfeirnod Grid:** 252342.35, 363954.67
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:** C23/0164/23/DT
**Math o Gais :** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad unllawr a porth newydd
**Ymgeisydd:** Mr Chris Grubb
**Asiant:** Mr Gwyn Pritchard (Ty Newydd Cyf)
**Cyfeiriad:** Tŷ Newydd, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RY
**Cyfeirnod Grid:** 253221.17, 361248.13
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C23/0180/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad cefn unllawr  Single storey rear extension
**Ymgeisydd:** T Arnold
**Asiant:** Phil Jones (Brio Design & Architecture)
**Cyfeiriad:** Tai Arfonia Tai Rhythallt, Llanrug, Gwynedd, LL55 4AS
**Cyfeirnod Grid:** 254276.79, 363548.88
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 21:00

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 18 0 Ebrill 2023